**STD 01-02**

**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Agenda**

**Dyddiad:** 20 Mawrth 2002
**Amser:** 9:30am
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a chyflwyniad gan y Cadeirydd – 5 munud**

**Eitem Lafar**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfod, gan amlinellu ei bwrpas yn fyr a bydd yn galw am unrhyw ymddiheuriadau. Gwahoddir Aelodau'r Pwyllgor i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod diwethaf, ddydd Mercher 12 Rhagfyr 2001, yn gywir.

**Eitem 2: Adroddiad chwarterol ac adolygiad o'r camau sy'n deillio o STD 05-01 – 5 munud**

**Papurau:** Papur a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth – STD 01-02(01)

Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r cynnydd a'r gwaith sydd ar y gweill.

**Eitem 3: Adroddiad ar y Gofrestr Buddiannau – 5 Munud**

**Eitem Lafar**

Bydd Clerc y Pwyllgor yn nodi newidiadau a wnaed i'r Adroddiadau a gyhoeddwyd ar Gofrestr Buddiannau'r Aelodau.

**Eitem 4: Saeryddiaeth Rydd – 45 Munud**

**Papur:** Papur a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 01-02(02)

Dylai'r Pwyllgor ystyried y papur gan yr Ysgrifenyddiaeth sy'n gwahodd y Pwyllgor i orffen ystyried y gofyniad bod Aelodau'r Cynulliad yn cofrestru eu haelodaeth â'r Seiri Rhyddion a phenderfynu ar ffordd ymlaen.

**15 munud o egwyl**

**Eitem 5: Adolygiad o'r Gweithdrefnau ar gyfer Safonau: Penodi Ymgynghorydd Arbenigol – 5 Munud**

**Eitem Lafar** – Dylai'r Clerc roi adroddiad ar raglen waith yr Ymgynghorydd Arbenigol.

**Eitem 6: Materion a Gyfeiriwyd i'r Pwyllgor am Gyngor - 30 Munud**

**6 i. : Cyfrinachedd Adroddiadau Pwyllgor - 10 Munud**

**Papur:** Papur a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 01-02(03)

Rhoddodd Panel y Cadeiryddion ystyriaeth i'r papur amgaeëdig yn eu cyfarfod ar 29 Tachwedd 2001. Gwahoddir y Pwyllgor i roi ystyriaeth ffurfiol i'r papur.

**6 ii. : Datgelu Trafodion Preifat Pwyllgorau - 10 Munud**

**Papur:** Papur a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 01-02(04)

Mae'r Llywydd wedi gofyn i'r Pwyllgor am gyngor, o dan Reol Sefydlog 16(iii), mewn perthynas ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol. Mae'r rhesymau dros gyfeirio wedi'u nodi yn y papur amgaeëdig a gofynnir i'r Pwyllgor roi ystyriaeth ffurfiol i'r materion.

**6 iii. : Braint -10 Munud**

**Papur:** Papur a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 01-02(05)

Mae'r Llywydd wedi gofyn i'r Pwyllgor am gyngor, dan Reol Sefydlog 16(iii), mewn perthynas ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol. Mae'r rhesymau dros gyfeirio wedi'u nodi yn y papur amgaeëdig a gofynnir i'r Pwyllgor roi ystyriaeth ffurfiol i'r materion.

**Eitem 7: Defnyddio Offer Swyddfa ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru – 10 Munud**

**7 i. :Defnyddio Offer Swyddfa ac Adnoddau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Papur:** Papur a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 01-02(6)

Gwahoddir y Pwyllgor i roi ystyriaeth i'r Canllawiau diwygiedig ar ddefnyddio Offer Swyddfa ac Adnoddau'r Cynulliad Cenedlaethol a rhoi

gwybod a oes angen unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau eraill cyn anfon y canllawiau at y Llywydd i'w cymeradwyo.

**7 ii.: Rhannu Swyddfeydd Etholaethol**

**Papur:** Papur a luniwyd gan yr Ysgrifenyddiaeth - STD 01-02(7)

Gwahoddir y Pwyllgor I ystyried y canllawiau drafft ar rannu swyddfeydd etholaethol.

**Eitem 8: Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf - 5 Munud**

Gwnaed trefniadau bras i gynnal cyfarfodydd ddydd Mercher 8 Mai, dydd Mercher 12 Mehefin a dydd Mercher 10 Gerffennaf. Gwahoddir yr Aelodau i gytuno ar y dyddiad mwyaf addas ar gyfer y cyfarfod nesaf.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Safonau Ymddygiad**